



SSAGO

Student Scout and Guide Organisation

Gwybodaeth i Bobl Ifanc



MSAGM a'r Brifysgol

Mae ymuno â MSAGM yn ffordd wych o wneud yn fawr o fywyd prifysgol. Mae'n gyfle i gwrdd â phobl o'r un anian, mwynhau gwersylloedd, raliau, teithiau a digwyddiadau rhyngwladol a gwneud ffrindiau gydol oes yr un pryd.

Eisiau gwirfoddoli wrth astudio? Gall MSAGM eich helpu i gysylltu â grwpiau sgowtiaid a geidiau lleol. Dechrau yn y brifysgol? Gallwch ddod o hyd i lawer o glybiau MSAGM mewn ffeiriau glasfyrwyr — dewch i ddweud helo!



Beth yw MSAGM?

Mae Mudiad Sgowtiaid a Geidiau'r Myfyrwyr (MSAGM) yn galluogi unrhyw fyfyrwr i barhau neu i gychwyn ar eu taith fel sgowtiaid neu geidiau yn y coleg neu'r brifysgol. Mae'r mudiad ar agor i bob myfyrwr addysg uwch, nid oes rhaid i chi fod yn aelod o'r sgowtiaid na'r geidiau i ymuno â chlwb lleol neu ddod yn aelod annibynnol.



Yn barod i gymryd rhan?

Ewch i www.ssago.org i ddod o hyd i'ch clwb agosaf, cael gwybod am y digwyddiadau sydd ar ddod a dysgu mwy am sgowtiaid a geidiau myfyrwyr. Unrhyw gwestiynau? Byddem yn falch iawn o glywed gennych: pink@ssago.org



@SSAGO_UK



Student Scout and Guide Organisation (SSAGO)